OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1011 (Cy.108)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*31 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(6)(b) a (7), 4(6) a (7)(b) i (i), 139(2) a 142(4) a (5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi(**1**) a chan adrannau 9(3), 57A(1) a (3) a 67(5) o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**2**), a phob pŵ er arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2004, a deuant i rym ar 1 Hydref 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr un ystyr ag "*adoption agency*" yn Neddf Mabwysiadu 1976(**3**);

mae i "credyd treth plant" yr un ystyr â "*child tax credit*" yn Neddf Credydau Treth 2002 (**4**));

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

(**1**) 2002 p.38. Mae'r pwerau'n arferadwy gan y Gweinidog priodol: *gweler* adran 144(1) am y diffiniad o "regulations". Diffinnir "appropriate Minister" yn adran 144(1), mewn perthynas â Chymru, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) 1976 p.36 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant 1989 p.41 (paragraff 25 o Atodlen 10) a Deddf 2002 (paragraff 4 o Atodlen 4). Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddi.

(**3**) Gan adran 1(4) o Ddeddf Mabwysiadu 1976, caniateir cyfeirio at awdurdod lleol neu gymdeithas fabwysiadu briodol fel asiantaeth fabwysiadu. Diffiniwyd y term "appropriate voluntary organisation" yn adran 1(5) o Ddeddf 1976, fel y'i mewnosodwyd gan adran 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac Atodlen 4, paragraff 5 iddi, t.14.

(**4**) 2002 p.21.

ystyr "defnyddiwr gwasanaethau cymorth mabwysiadu" ("*adoption support services user*") yw person a bennir yn yr Atodlen;

mae "gwasanaethau cymorth mabwysiadu" ("*adoption support services*") i'w dehongli yn unol â rheoliad 3(1);

ystyr "hysbysu" ("*notify*") yw hysbysu yn ysgrifenedig;

mae i "plentyn sydd yn derbyn gofal" yr un ystyr ag "*a child who is looked after*" yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989(**5**);

ystyr "Rheoliadau 1983" ("*the 1983 Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**6**);

ystyr "rhiant mabwysiadol" ("*adoptive parent*") yw person —

(a) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu yn unol â rheoliad 11(1) o Reoliadau 1983 y byddai'n rhiant mabwysiadol addas i blentyn;

(b) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi lleoli plentyn gydaf ef i'w fabwysiadu;

(c) sydd wedi hysbysu ei fwriad, o dan adran 22(1) o Ddeddf Mabwysiadu 1976, i wneud cais am orchymyn mabwysiadu am blentyn; neu

(ch) sydd wedi mabwysiadu plentyn,

ond nid yw'n cynnwys person os nad yw'r plentyn bellach yn blentyn, neu os yw'r person yn llys-riant neu'n rhiant naturiol y plentyn, neu a oedd yn llys-riant i'r plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn; ac

ystyr "teulu mabwysiadol" ("*adoptive family*") yw plentyn mabwysiadol, rhiant mabwysiadol y plentyn mabwysiadol, unrhyw blentyn i'r rhiant mabwysiadol ac y mae cyfeiriadau at deulu mabwysiadol person neu gyfeiriadau neu mewn perthynas â theulu mabwysiadol person, i'w dehongli fel y teulu mabywsiadol y mae'r person hwnnw yn aelod ohono.

(2) Yn y Rheoliadau hyn —

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (b), ystyr "plentyn mabwysiadol" yw plentyn a fabwysiadwyd, neu blentyn y gellir ei fabwysiadu;

(b) mae cyfeiriadau at blentyn mabwysiadol person yn gyfeiradau at blentyn heblaw llysblentyn, a fabwysiadwyd, neu y mae caniatâd i'w fabwysiadu, gan y person hwnnw.

(3) Yn rheoliadau 8 i 15, ystyr "plentyn" ("*child*") yw plentyn mabwysiadol, ac mae cyfeiriadau at blentyn person yn gyfeiriadau at blentyn, heblaw llysblentyn y person, a fabwysiadwyd neu y mae caniatâd i'w fabwysiadu gan y person hwnnw.

Darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu

3.—(1) At ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002 (diffinio "adoption support services")(**7**), rhagnodir y gwasanaethau a ganlyn—

(a) cymorth ariannol sy'n daladwy o dan reoliad 10;

(b) gwasanaethau i alluogi grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu;

(c) cymorth mewn perthynas â threfniadau cysylltu rhwng plentyn mabwysiadol a —

(i) perthynas i'r plentyn mabwysiadol; neu

(**5**) 1989 p.41.
(**6**) O.S. 1983/1964, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/649, O.S. 1983/2308 ac O.S. 2001/2237.
(**7**) Gan adran 2(6) o Ddeddf 2002, diffinnir y term "adoption support services" fel (a) cwnsela, cyngor a gwybodaeth, a (b) unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau mewn perthynas â mabwysiadu.

(ii) unrhyw berson y mae gan y plentyn mabwysiadol berthynas ag ef a honno'n berthynas, ym marn yr awdurdod lleol, sydd o fudd i les y plentyn o ran y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) i (iii) o adran 1(4)(f) o Ddeddf 2002;

(ch) gwasanaethau y gellir eu darparu i riant mabwysiadol neu blentyn mabwysiadol mewn perthynas ag anghenion therapiwtig y plentyn;

(d) cymorth er mwyn sicrhau bod y berthynas rhwng y plentyn a'i riant mabwysiadol yn parhau, gan gynnwys —

(i) hyfforddiant i rieni mabwysiadol er mwyn diwallu unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn;

(ii) gofal seibiant.

(2) At ddibenion paragraff 3(1) o Atodlen 4 i Ddeddf 2002, y trefniadau mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu gwneud yw trefniadau er mwyn darparu unrhyw wasanaeth a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen ar gyfer personau sydd o ddisgrifiad a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn (2) o'r Atodlen hwnnw.

(3) Mae'n ofynnol gwneud y trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) o ran unrhyw wasanaeth p'un a yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu darparu'r gwasnanaeth i unrhyw berson ai peidio.

Cynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu

4.—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol benodi person ("*cynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu*") i gyflawni'r swyddogaeth a bennir ym mharagraff (2).

(2) Swyddogaethau cynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu yw cynghori personau yr effeithir arnynt pan fydd plentyn yn cael ei fabwysiadu neu pan fwriedir mabwysiadu plentyn a rhoi gwybodaeth iddynt am y canlynol —

(a) gwasanaethau a all fod yn briodol i'r personau hynny; a

(b) sut y gellir darparu'r gwasanaethau hynny iddynt.

(3) Caiff awdurdodau lleol dim ond penodi person yn gynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysaidu os yw'n fodlon fod ei wybodaeth a phrofiad am —

(a) y broses fabwysiadu; a

(b) effaith mabwysiadu plentyn ar bersonau y mae'n debygol yr effeithir arnynt gan y mabwysiadu,

yn ddigonol at ddibenion rôl cynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

Rheidrwydd asesu

5.—(1) Rhaid i awdurdod lleol, ar gais oedolyn neu blentyn a bennir yn yr Atodlen, asesu ei anghenion o ran gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

(2) Caiff awdurdod lleol, ar gais unrhyw berson arall, gynnal asesiad o'i anghenion am wasanaethau cymorth mabwysiadu.

(3) Pan fydd awdurdod lleol yn ystyried mabwysiadu ar gyfer plentyn sydd o dan ofal awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod, cyn cwblhau'r adroddiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan rheoliad 7(2)(e) o Reoliadau 1983, asesu anghenion y plentyn o ran gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

(4) Pan fydd awdurdod lleol yn cynnig lleoli plentyn i'w fabwysiadu gyda ddarpar fabwysiadwr, rhaid i'r awdurdod, cyn cwblhau'r adroddiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan reoliad 9(1) o Reoliadau 1983, asesu anghenion pob aelod o'r teulu mabwysiadol o ran gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

(5) Os digwydd y canlynol —

(a) bod awdurdod lleol yn adolygu lleoliad plentyn i'w fabwysiadu o dan reoliad 12(2)(k) o Reoliadau 1983; a

(b) nid yw wedi cynnal asesiad yn unol â pharagraff (4) o ran pob aelod o'r teulu mabwysiadol,

rhaid iddo, cyn cwblhau'r adolygiad, asesu anghenion pob aelod o'r teulu mabwysiadol o ran gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

(6) Pan fydd awdurdod lleol ("yr awdurdod lleoli") yn ystyried lleoli plentyn sydd o dan ofal gyda ddarpar fabwysiadwr sy'n preswylio yn ardal awdurdod lleol arall ("yr awdurdod adennill"), rhaid i'r awdurdod lleoli ymgynghori yn ysgrifenedig â'r awdurdod adennill am y lleoliad ac am ganlyniadau'r gwaith asesu a wnaed yn unol â pharagraffau (3) a (4) ac yn enwedig am allu'r asiantaethau yn ardal yr awdurdod adennill i ddarparu unrhyw wasanaethau cymorth mabwysiadu a nodwyd.

(7) Rhaid i'r awdurdod adennill yng Nghymru ymateb yn ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a wnaed yn unol â pharagraff (6) cyn pen wyth niwrnod ar hugain ar ôl ei gael.

(8) Pan fydd awdurdod adennill wedi ymateb yn ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a wnaed yn unol â pharagraff (6), rhaid i'r sylwadau ysgrifenedig hyn gael eu hystyried gan y panel mabwysiadu wrth ystyried lleoli plentyn yn unol â rheoliad 10 o Reoliadau 1983 a chan yr asiantaeth fabwysiadu wrth ystyried ei benderfyniad yn unol â rheoliad 11 o Reoliadau 1983.

(9) Pan fydd cais y person o dan baragraff (1) neu (2) yn ymwneud â gwasanaeth penodol a bennir yn rheoliad 3(1), neu os ymddengys i'r awdurodd lleol fod modd asesu anghenion y person am wasanaethau cymorth mabwysiadu drwy gyfeirio at wasanaeth penodol a bennir felly, caiff yr awdurdod gynnal yr asesiad drwy gyfeirio at y gwasanaeth hwnnw yn unig.

(10) Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol o dan baragraff (1) asesu anghenion person oni bai —

(a) bod paragraff (11) yn gymwys;

(b) bod paragarff (12) yn gynmwys a bod y person yn gofyn am gael ei asesu —

(i) cyn pen blwyddyn ar ôl dyddiad y gorchymyn mabwysiadu; neu

(ii) cyn pen tair blynedd ar ôl y dyddiad pan leolwyd y plentyn mabwysiadol gyda'r rhieni mabwysiadol; neu

(c) nad yw is-baragraffau (a) a (b) yn gymwys ac mae'r person yn byw yn ardal yr awdurdod lleol.

(11) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fydd plentyn mabwysiadol —

(a) o dan ofal yr awdurdod lleol; neu

(b) heb ei fabwysiadu ond wedi cael ei leoli i'w fabwysiadu gan yr awdurdod lleol.

(12) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fydd plentyn mabwysiadol —

(a) wedi cael ei fabwysiadu gan ei rieni mabwysiadol; a

(b) cyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud, wedi cael ei leoli i'w fabwysiadu gyda'r rhieni mabwysiadol gan yr awdurdod lleol.

Gweithdrefn asesu

6.—(1) Rhaid i'r asesiad o anghenion person am wasanaethau cymorth mabwysiadu gael ei gynnal gan berson a chanddo'r cymwysterau a'r profiad addas, ynghyd â'r sgiliau angenhreidiol at ddibenion yr asesiad.

(2) Wrth asesu, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y canlynol—

(a) anghenion y person;

(b) anghenion teulu mabwysiadol y person;

(c) o ran plentyn mabwysiadol a leolwyd i'w fabwysiadu, yr amgylchiadau a arweiniodd at leoli'r plentyn i'w fabwysiadu;

(ch) unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn mabwysiadol sy'n codi oherwydd —

(i) bod y plentyn wedi bod o dan ofal yr awdurdod lleol;

(ii) bod y plentyn wedi preswylio'n arferol y tu allan i Ynysoedd Prydain;

(iii) bod y rhiant mabwysiadol yn berthynas i'r plentyn.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol, pan fydd yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny—

(a) cyfweld â'r person ac os bydd y person yn blentyn mabwysiadol, ei rieni mabwysiadol;

(b) llunio adroddiad ysgrifenedig o'r asesiad.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol, gan ystyried yr asesiad, benderfynu—

(a) a oes ar y person angen gwasanaethau cymorth mabwysiadu; a

(b) os felly, a oes angen darparu'r gwasanaethau hynny iddo,

ac, yn ddarostyngedig i baragraffau (6) a (7), rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'r penderfyniad yn ysgrifenedig yn unol â pharagraff (5), yn ogystal â'r rhesymau drosto.

(5) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) gael ei roi —

(a) pan fydd y person yn oedolyn, i'r person hwnnw;

(b) pan fydd y person yn blentyn ac—

(i) ymddengys i'r awdurdod lleol fod y plentyn yn ddigon hen a'i fod yn deall digon iddi fod yn briodol rhoi'r hysbysiad hwnnw iddo; a

(ii) o ystyried popeth, nid ymddengys yn amhriodol gwneud hynny,

i'r plentyn;

(c) mewn unrhyw achos arall pan fydd y person yn blentyn, i—

(i) y person y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu yn unol â rheoliad 11(1) o Reoliadau 1983 y byddai'n rhiant mabwysiadol addas i'r plentyn;

(ii) y person y lleolwyd y plentyn gydag ef i'w fabwysiadu;

(iii) y person sydd wedi mabwysiadu'r plentyn; neu

os nad yw person yn dod o fewn penawdau (i) i (iii) o'r is-baragraff hwn, y person sy'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn.

(6) Pan fydd yr asesiad yn ymwneud â darparu gwybodaeth yn unig, ni fydd y gofyniad ym mharagraff (4) i roi hysbysiad yn gymwys pan na fydd yr awdurdod lleol yn ei hystyried yn briodol rhoi hysbysiad.

(7) Pan fydd yr asesiad yn ymwneud ag angen person am gymorth ariannol, rhaid rhoi'r hysbysiad a roddir mewn perthynas â phenderfyniad yr awdurod lleol ynghylch darparu cymorth ariannol yn ychwanegol at unrhyw hysbysiad a roddir yn unol â rheoliadau 12 a 13.

Cynllun

7.—(1) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu darparu unrhyw wasanaethau cymorth mabwysiadu i berson, rhaid iddo, ac eithrio pan fydd y gwasanaethau i'w darparu ar un achlysur—

(a) paratoi cynllun y mae'r gwasanaethau i'w darparu yn unol ag ef; a

(b) ei hysbysu ef neu hi am y cynllun.

(2) At ddibenion paratoi'r cynllun, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â —

(a) y person;

(b) y cynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu (os oes un) a enwebwyd ar gyfer y person;